

Cymorth i Ysgolion

Cymorth i Ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

TROSOLWG

Nod sylfaenol Pen-y-bont ar Ogwr yn ei waith ym maes Cynhwysiant yw sicrhau bod pob dysgwr yn cael eu dysgu mewn modd sy'n cael effaith gadarnhaol, gyson ar eu deilliannau a'u lles. Nod y gwasanaeth yw cynorthwyo ysgolion, mewn partneriaeth â'u teuluoedd ac asiantaethau eraill, i gynnig cwricwlwm eang a chytbwys i holl blant a phobl ifanc y Fwrdeistref Sirol a hynny mewn amgylchedd dysgu priodol, gan roi'r holl wybodaeth berthnasol iddynt.

Mae'r Gwasanaeth Cynhwysiant yn cynnwys yr Uwch Dîm Arwain; Athrawon Arbenigol; Cynorthwywyr Cymorth Dysgu Arbenigol; Seicolegwyr Addysg a therapyddion sydd â phrofiad o ddiwallu amrywiaeth eang o ADY. Mae staff y gwasanaeth wedi'u lleoli ar hyd a lled y Fwrdeistref Sirol (yn y Dwyrain, y Gorllewin a'r Gogledd) ac maent yn gweithio fel rhan o'r Tîm o Amgylch y Disgybl, y Rhiant a'r Ysgol (TAPPAS) ac yn Narpariaeth Amgen y Bont.

BETH Y MAE'R GWASANAETH YN EI GYNNIG?

Mae'r Gwasanaeth yn ymwneud yn uniongyrchol â darparu ar gyfer plant a phobl ifanc ag Anghenion Addysgol Arbennig (AAA), fel y'i diffinnir yng Nghod Ymarfer AAA Cymru, ac mae hefyd yn helpu i ddarparu ar gyfer disgyblion ag amrywiaeth ehangach o anghenion dysgu ychwanegol.

Yr Egwyddorion Arweiniol

Nod cyffredinol y model ADY o ddarparu gwasanaethau yw sicrhau bod disgyblion yn cael addysg eang, gytbwys a pherthnasol, ac y bydd eu hanghenion eithriadol yn cael eu diwallu.

Mae angen nifer o egwyddorion cyffredinol i lywio'r gwaith o drefnu a rheoli'r Gwasanaeth Cynhwysiant:

- Mae gan staff y Gwasanaeth Cynhwysiant y cymwysterau priodol a'r profiad angenrheidiol i sicrhau bod disgyblion yn cael y ddarpariaeth arbenigol sydd ei hangen arnynt. Dylai staff ysgolion fod â'r arbenigedd ADY a'r arbenigedd cwricwlwm i'w galluogi i gynnig cwricwlwm eang, cytbwys a pherthnasol i ddisgyblion;
- Mae staff y Gwasanaeth Cynhwysiant yn gweithio mewn ysgolion gwahanol o fewn ardal leol ac yn Narpariaeth Amgen y Bont, ac maent hefyd yn gweithio gyda disgyblion mewn sectorau gwahanol. Byddant yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau gan gynnwys adnabod ac asesu disgyblion ag anghenion ychwanegol a rhoi rhaglenni ymyrraeth ar waith i'w helpu. I wneud hyn, bydd angen sicrhau bod staff Cynhwysiant yn cael cyngor arbenigol, arweiniad, cymorth a chyfluoedd i ddatblygu'n broffesiynol ac i ddatblygu eu gyrfa yn unol â'u meysydd arbenigol.

Mae angen nifer o egwyddorion penodol hefyd i lywio'r gwaith o drefnu a rheoli gwasanaeth Cynhwysiant:

- Mae staff y Gwasanaeth Cynhwysiant yn gweithio ar y cyd i arwain a rheoli'r ddarpariaeth allgymorth arbenigol o fewn y clwstwr a'r ardal leol;
- Mae staff y Gwasanaeth Cynhwysiant yn cynorthwyo ysgolion i sicrhau bod disgyblion ag ADY yn cael eu cynnwys yn y grwpiau dysgu ac i sicrhau bod anghenion eithriadol y disgyblion hyn yn cael eu hystyried wrth gynllunio gwersi. Bydd hyn yn cynnwys cynorthwyo ysgolion i addasu'r modd y caiff y cwricwlwm ei drefnu a'i gyflwyno.
- Bydd y Gwasanaeth Cynhwysiant yn sicrhau bod digon o staff ac adnoddau arbenigol ar gael i ddiwallu anghenion eithriadol disgyblion ag ADY.

Trefniadau i fanteisio ar y ddarpariaeth Allgymorth:

Bydd yr ysgol a'r Gwasanaeth Cynhwysiant yn cytuno ar feini prawf clir ar gyfer manteisio ar y ddarpariaeth allgymorth er mwyn penderfynu ar y ddarpariaeth allgymorth fwyaf priodol.

Bydd yr ysgol, y Gwasanaeth Cynhwysiant a staff cymorth y ddarpariaeth allgymorth yn trafod pob disgybl cyn penderfynu a ddylai gael ddarpariaeth allgymorth ac, os felly, pa fath o gymorth fyddai'r fwyaf priodol.

Trefniadau derbyn y Canolfannau Adnoddau Dysgu:

Bydd staff yr ysgol, y Gwasanaeth Cynhwysiant a'r Gwasanaeth Seicoleg Addysg yn cytuno ar feini prawf derbyn clir er mwyn penderfynu a fyddai'n briodol i ddisgybl ag ADY gael addysg mewn canolfan adnoddau.

Bydd y panel yn cynnwys staff yr ysgol dan sylw, y Gwasanaeth Cynhwysiant a'r Gwasanaeth Seicoleg Addysg yn trafod pob disgybl cyn penderfynu a fyddai'n briodol iddynt gael lle mewn canolfan adnoddau. Bydd y panel yn cytuno ar y drefn ar gyfer derbyn disgyblion y mae angen ddarpariaeth arbenigol arnynt.

Bydd pennaeth dynodedig, y Prif Seicolegydd Addysg a Rheolwr y Tîm ADY yn datrys unrhyw anghydfod ymhlith y panel.

Er mwyn medru sicrhau ddarpariaeth arbenigol leol, mae'n hanfodol bod ysgolion yn barod i sefydlu Canolfannau Adnoddau Dysgu mewn lle addas o fewn y clwstwr. Drwy hynny, bydd disgyblion ADY yn gallu manteisio ar y cymorth ychwanegol y gall y ganolfan ei gynnig a hynny mor agos at eu cartrefi â phosibl.

Adolygiadau

Bydd yr awdurdod lleol a Chonsortium Canolbarth y De yn gweithio mewn partneriaeth i adolygu'r ddarpariaeth ADY yn yr ysgolion.

Mae ddarpariaeth ADY wedi datblygu i wahanol raddau mewn ysgolion gwahanol, wrth gwrs. Mae data o ansawdd da yn sylfaenol i'r broses o adolygu ADY a

dadansoddi anghenion yr ysgol yn y dyfodol. Bydd gwybodaeth o'r math hwn yn cael ei defnyddio i greu system adolygu barhaus i bwysu a mesur pa mor effeithiol yw'r ddarpariaeth, i werthuso deilliannau plant a phobl ifanc ag ADY ac i sicrhau bod adnoddau'n cael eu targedu'n briodol i ddiwallu anghenion y gymuned ysgolion, sy'n newid yn gyson.

Mae tair prif agwedd ar y data a gaiff ei gasglu a'i werthuso:

- gwerthuso deilliannau disgyblion ag ADY;
- gwerthuso effeithiolrwydd y ddarpariaeth ADY;
- gwerthuso'r modd y caiff y ddarpariaeth ADY ei harwain a'i rheoli.

Mae'r Cyfarfod Adolygu ADY yn creu fframwaith i fonitro cynnydd a sicrhau ansawdd yn unol ag arweiniad Estyn ar gyfer ysgolion unigol a'r clwstwr o ysgolion. Diben y cyfarfod yw adolygu'r data allweddol, sy'n sail i drafodaethau ynghylch cynlluniau ar gyfer y dyfodol. Caiff adroddiad byr ei baratoi o ganlyniad i'r adolygiad ADY.

Trefniadau rheoli

Cyfrifoldeb uwch dîm rheoli'r Gwasanaeth Cynhwysiant yw sicrhau bod gan staff y gwasanaeth y wybodaeth, y sgiliau a'r cymwysterau anghenrheidiol i ymgymryd â'u dylestwyddau'n effeithiol.

Cyfrifoldeb ysgolion, ar y cyd â'r Gwasanaeth Cynhwysiant, yw'r trefniadau o ddydd i ddydd pan fydd staff y gwasanaeth yn dod i'r ysgol ar ymweliad allgymorth.

Mae'n bosibl y caiff cynrychiolydd penaethiaid y clwstwr eu gwahodd i benodi aelod newydd o staff ADY. Bydd y paneli penodi'n cynnwys pennaeth; aelodau o uwch dîm arwain y Gwasanaeth Cynhwysiant a staff eraill o'r Gwasanaeth Cynhwysiant, fel y bo'n briodol.

Trefniadau adrodd

Bydd Rheolwr Grŵp Cynhwysiant a Gwella Ysgolion yn cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Uwch Dîm Rheoli yn y Gyfarwyddiaeth Addysg a Chymorth i Deuluoedd ar effeithlonrwydd y trefniadau gweithio cyfredol.

Bydd penaethiaid ysgolion yn cyflwyno adroddiad blynyddol i'w cyrff llywodraeth ar effeithlonrwydd y trefniadau gweithio cyfredol.

Trefniadau ariannu

Cyfrifoldeb yr awdurdod lleol yw sicrhau bod yswiriant digonol ar gael ar gyfer achosion neu hawliadau posibl gan bobl sydd wedi'u niweidio neu sy'n dioddef oherwydd difrod neu gollod yn dilyn yr hyn y mae'r awdurdod wedi'i wneud mewn perthynas â'r cytundeb hwn.

Mae'r cytundeb lefel gwasanaeth hwn rhwng ysgolion ac awdurdod lleol Pen-y-bont ar Ogwr yn ceisio diffinio rolau a chyfrifoldebau'r ysgol a'r awdurdod lleol yn y broses o roi'r Strategaeth Cynhwysiant ar waith ym mhob ardal/clwstwr o ysgolion. Bydd model y 'Tîm o Amgylch y Disgybl, y Rhiant a'r Ysgol' (TAPPAS) a'r broses adolygu

ADY, yn sicrhau bod safonau gwasanaeth yn yr ysgol a'r awdurdod lleol yn cael eu cynnal.

Bydd y ddarpariaeth arbenigol yn cael ei chynllunio, ei rhoi ar waith, ei monitro a'i gwerthuso mewn modd sy'n caniatáu i ysgolion a'r awdurdod lleol weithio ar y cyd i gynnal darpariaeth o safon.

Y MANTEISION I'R YSGOL

Bydd y Gwasanaeth yn:

- cynnal hunanarfarniad rheolaidd o'i arferion gweithio a'r modd y mae'n cynorthwyo ysgolion i wella addysg gynhwysol;
- cynorthwyo ysgolion i adnabod disgyblion ADY yn gynnar, rhoi rhaglenni ymyrraeth ar waith ac olrhain disgyblion;
- cynorthwyo ysgolion i gynnal gwaith hunanwerthuso'u darpariaeth ADY gan gynnwys ei heffaith ar ddeilliannau disgyblion;
- gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion i nodi cyfleoedd i hyfforddi a datblygu staff a chynorthwyo ysgolion i roi rhaglen hyfforddi a datblygu ar waith;
- cynorthwyo ysgolion gyda disgyblion ADY yn ystod y cyfnod pontio gan sicrhau bod y cymorth priodol ar gael i ddiwallu anghenion y disgybl;
- rhoi allgymorth arbenigol i ddisgyblion unigol ag anghenion ychwanegol cymhleth;
- darparu lleoliadau arbenigol i ddisgyblion ag anghenion ychwanegol cymhleth;

Bydd yr ysgolion yn:

Huanawerthuso'u harferion gweithio'n rheolaidd yng nghyswllt addysg gynhwysol i sicrhau:

- deilliannau da - yn academiaidd, yn gymdeithasol ac yn emosiynol;
- profiad dysgu priodol;
- bod dulliau dysgu addas ar waith i ddiwallu anghenion y disgyblion;
- gofal, cymorth ac arweiniad priodol;
- amgylchedd dysgu priodol;
- arweinyddiaeth dda;
- tystiolaeth o wella ansawdd y ddarpariaeth;
- gwaith partneriaeth da;
- adnoddau sy'n cael eu rheoli'n dda;
- tystiolaeth sy'n dangos ymateb graddedig i anghenion y disgyblion a'r ddarpariaeth

CYSYLLTWCH Â:

Michelle Hatcher- Rheolwr Grŵp y Gwasanaeth Cynhwysiant a Gwella Ysgolion

Ffôn: 01656 815258

E-bost: michelle.hatcher@bridgend.gov.uk

Manylion cyswllt y Gwasanaeth Cynhwysiant

Ffôn: 01656 815230

Cyfeiriad: Y Gwasanaeth Cynhwysiant, Y Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 4WB

Uwch Dîm Arwain y Gwasanaeth Cynhwysiant.

- Rheolwr Grŵp y Gwasanaeth Cynhwysiant a Gwella Ysgolion: **Michelle Hatcher**
- Rheolwr Achosion Cymhleth ADY a'r Prif Seicolegydd Addysg: **Lorraine Silver**
- Rheolwr Tîm ADY: **Fran Jones**
- Athrawes â Gofal – Darpariaeth Amgen y Bont: **Victoria Cox-Wall**